

ELISABETH YR AIL [drwy](#) Ras Duw Brenhines Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a'n [Teyrnasoedd](#) a'n Tiriogaethau Eraill, Pennaeth y Gymanwlad, Amddiffynnydd y Ffydd:

I BAWB Y DAW'R PRESENOLION HYN ATYNT, CYFARCH!

YN GYMAINT ag y darfu i'w Mawrhydi y Frenhines Victoria ar y degfed dydd o Fedi yn y flwyddyn Mil wyth cant wyth deg a naw ganiatáu Siarter (a elwir yma [o hyn allan](#) "Siarter 1889") yn cyfansoddi ac yn sefydlu Coleg ym Mwrdeistref Aberystwyth wrth yr enw the University College of Wales, Aberystwyth, a chan y Siarter honno'r Erthygl gyntaf hon a ddarllen fel [a ganlyn](#):

"1. Cyfansoddir drwy hyn aelodau'r Sefydliad sydd yn awr yn bodoli ym Mwrdeistref Aberystwyth yn Sir Aberteifi dan yr enw Coleg Prifysgol Cymru, a'r personau hynny a wneir neu y datgenir gan y Presenolion hyn eu bod yn aelodau o'r Gorfforaeth a gyfansoddir drwy'r Presenolion hyn a'u holynwyr, a datgenir eu bod, yn un Corff Llywodraethol a Chorfforedig dan yr enw "THE UNIVERSITY COLLEGE OF WALES, ABERYSTWYTH" gydag olyniaeth barhaol a sêl gyffredin a gall gymryd iddo'i hun bais arfau (a gofrestrir yn [briodol](#) yng Ngholeg yr Herodron) a chydag awdurdod yn yr enw hwnnw i ddwyn ac i amddiffyn cyngaws a dal heb unrhyw drwydded arall ond y Presenolion hyn, dir, tenementau, a hereditamentau at ddibenion y corff llywodraethol a chorfforedig hwnnw yn unig heb fod yn fwy o werth yn flynyddol na'r swm o Ddeng Mil o Bunnau y flwyddyn."

AC YN GYMAINT ag y caniatawyd yn y blynyddoedd Mil naw cant saith deg a thri a Mil naw cant saith deg ac wyth Siarteri Atodol (a elwir yma [o hyn allan](#) "y Siarteri Atodol") i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, yn newid ac yn goleddfu rhai o'r darpariaethau yn Siarter 1889:

AC YN GYMAINT â bod Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, [drwy](#) Ddeiseb ostyngedig a gyflwynwyd i Ni yn Ein Cyngor wedi erfyn arnom ymfodloni'n raslon i ddirymu (dan amod diogelu rhai materion) Siarter 1889 a'r Siarteri Atodol a chaniatáu iddo Siarter Atodol bellach:

AC YN GYMAINT â'n bod wedi cymryd y Ddeiseb ddywededig i'n Hystyriaeth Frenhinol a bod yn Ein bryd gytuno â hynny:

GWYBYDDWCH YN AWR Ein bod Ni, yn rhinwedd Ein Rhagorfraint Frenhinol ac o'n graslonrwydd arbennig, Ein gwybodaeth sicr a'n hysgogiad ein Hun, wedi ewyllysio ac ordeinio a'n bod Ni, drwy'r Presenolion hyn ar Ein Rhan Ni ac ar ran Ein Hetifeddion a'n Holynwyr yn ewyllysio ac yn ordeinio fod y cyfan o Siarter 1889 ac eithrio'r rhan honno o Erthygl 1 ohoni a gyfansoddodd ac a sefydlodd y Coleg yn gorfforaeth gydag olyniaeth barhaol a Sêl Gyffredin yn cael ei ddirymu yma a bod y cyfan o'r Siarteri Atodol yn cael [ei ddirymu](#) yma a bod y darpariaethau a gynhwysir yma [o hyn allan](#) yn cymryd eu lle fel y bydd unrhyw gyfeiriad mewn unrhyw Siarter Gorffori neu unrhyw weithred, ewyllys neu offeryn o unrhyw fath at Siarter 1889 neu unrhyw rai o'r Siarteri Atodol a ddirymwyd yma, neu at unrhyw ddarpariaeth ynddynt yn cael eu darllen a'u dehongli fel cyfeiriad at ddarpariaeth neu ddarpariaethau neu'r hyn a fo'n cyfateb agosaf yn Ein Siarter Atodol [hon](#) a'r Ystatudau, [yr](#) Ordinhadau a'r Rheoliadau a wneir dani.

## I. YR ENW

Siarter Atodol 2007, fel y'i diwygiwyd gan y Frenhines mewn Cyngor ar 27 Mehefin 2018.

Mae'r rhaglith uchod yn cynnwys ychydig o gywiriadau ieithyddol nad ydynt wedi cael eu cymeradwyo'n ffurfiol. Gellir wneud cais am gopi o'r Siarter gyfreithiol a'r rhaglith heb ei chywiro drwy gysylltu gyda Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol:

Prifysgol Aberystwyth, Y Ganolfan Ddelweddu, Penglais, Aberystwyth, SY23 3BF  
[ysgrifennydd@aber.ac.uk](mailto:ysgrifennydd@aber.ac.uk)

1

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg. / This document is also available in English.

Adwaenir y sefydliad yr arferid ei alw naill ai Prifysgol Cymru, Aberystwyth, neu the University of Wales, Aberystwyth, naill ai fel "PRIFYSGOL ABERYSTWYTH" neu fel "ABERYSTWYTH UNIVERSITY" a gall ddefnyddio'r naill enw neu'r llall neu'r ddau enw at bob diben, gan gynnwys bod yn rhan o achos cyfreithiol, dal tir, eiddo arall a phais arfau a defnyddio ei sêl gyffredin.

## II. IEITHOEDD SWYDDOGOL

Y Gymraeg a'r Saesneg fydd ieithoedd swyddogol y Brifysgol. Bydd unrhyw weithred a wneir neu ddogfen a gyflawnir gan yr awdurdod priodol yn enw ac ar ran y Brifysgol yn ddilys ac yn effeithiol yn y naill iaith neu'r llall.

## III. AELODAETH

Bydd aelodau'r Brifysgol fel y'u darperir drwy Ordinhad.

## IV. AMCANION Y BRIFYSGOL

Amcanion y Brifysgol fydd:

1. hyrwyddo dysg a gwybodaeth drwy addysgu ac ymchwil a thrwy esiampl a dylanwad ei bywyd corfforaethol;
2. darparu hyfforddiant a chyrsgiau astudio i'r rhai sydd yn ceisio ennill graddau a dyfarniadau eraill y Brifysgol neu sefydliadau eraill, ac i bobl eraill;
3. hybu a gwneud darpariaeth ar gyfer ymchwil ac ar gyfer ehangu, lledaenu, diogelu a chymhwyso gwybodaeth drwy'r dulliau hynny y penderfynir y Brifysgol arnynt;
4. datblygu potensial myfyrwyr y Brifysgol a'u paratoi ar gyfer cyflogaeth;
5. rhoi sylw arbennig, gan weithredu ar ei phen ei hun neu ar y cyd ag eraill, i anghenion addysgol Cymru, gyda golwg ar yr iaith Gymraeg a diwylliant, datblygiad economaidd a thraddodiadau cymdeithasol Cymru.

## V. GALLUOEDD Y BRIFYSGOL

Bydd y Brifysgol yn gorff addysgu, ymchwil, arholi a dyfarnu graddau a bydd ganddi'r gallu:

1. naill ai ar ei phen ei hun neu ar y cyd â sefydliadau eraill i wneud ac i gyflwyno dyfarniadau, graddau ac anrhydeddau eraill y Brifysgol, ac os bydd achos da i'w tynnu'n ôl;
2. i gyflwyno myfyrwyr y Brifysgol am ddyfarniadau, graddau ac anrhydeddau eraill sefydliadau eraill;
3. i wneud yr holl weithredoedd cyfreithlon y penderfynir y Brifysgol arnynt yn unol â'i hamcanion a'i buddiannau.

## VI. Y CANGHELLOR A'R DIRPRWY GANGELLORION

1. Bydd Canghellor i'r Brifysgol, ac ef neu hi, os yw'n bresennol, fydd yn cadeirio cyfarfodydd y Llys ac yn llywyddu dros gynulladau graddio. Penodir y Canghellor gan y Cyngor. Bydd y drefn ar gyfer penodi, tymor swydd a swyddogaethau'r Canghellor fel y'u darperir drwy Ordinhad.

2. Bydd un neu fwy o Ddirprwy Gangellorion i'r Brifysgol, a chaiff ef neu hi neu unrhyw rai ohonynt arfer holl swyddogaethau'r Canghellor pan fo'r swydd honno'n wag, ac fel arall fel y bo'r Canghellor yn eu dirprwyo i'r Dirprwy Gangellorion ac fel y darparo Ordinhad. Y Cyngor fydd yn penodi'r Dirprwy Gangellorion. Bydd y drefn ar gyfer penodi, tymor swydd a swyddogaethau'r Dirprwy Gangellorion fel y'u darperir drwy Ordinhad.

## VII. CADEIRYDD A DIRPRWY GADEIRYDD Y CYNGOR

Bydd Cadeirydd i'r Cyngor ac ef neu hi, os yw'n bresennol, fydd yn cadeirio cyfarfodydd y Cyngor. Bydd Dirprwy Gadeirydd hefyd a fydd, yn absenoldeb y Cadeirydd, yn cadeirio cyfarfodydd y Cyngor. Bydd Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor yn cael eu penodi gan y Cyngor a bydd y drefn ar gyfer penodi, tymor swydd a swyddogaethau Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor fel y'u darperir drwy Ordinhad.

## VIII. YR IS-GANGHELLOR, YR UWCH DDIRPRWY IS-GANGELLORION A'R DIRPRWY IS-GANGELLORION

1. Bydd Is-Ganghellor i'r Brifysgol, ac ef neu hi fydd prif swyddog academiaidd a gweinyddol y Brifysgol ac fe'i penodir gan y Cyngor. Bydd y drefn ar gyfer penodi, telerau ac amodau'r swydd a swyddogaethau'r Is-Ganghellor fel y'u darperir drwy Ordinhad. Os digwydd i'r Is-Ganghellor farw neu fod yn analluog, neu os bydd swydd yr Is-Ganghellor yn wag, caiff y Cyngor benodi Is-Ganghellor Dros Dro yn unol ag Ordinhad. Os digwydd hynny, bydd yr ymadrodd "Yr Is-Ganghellor" yn y Siarter, yr Ystatudau a'r Ordinhadau yn berthnasol i'r Is-Ganghellor Dros Dro a benodwyd drwy drefn briodol.
2. Gall fod un neu fwy o Uwch Ddirprwy Is-Gangellorion i'r Brifysgol, a byddant yn cyflawni'r swyddogaethau hynny y dirprwyo'r Is-Ganghellor iddynt ac fel y gellir darparu drwy Ordinhad. Y Cyngor fydd yn penodi'r Uwch Ddirprwy Is-Gangellorion. Bydd y drefn ar gyfer penodi a thelerau ac amodau swydd yr Uwch Ddirprwy Is-Gangellorion fel y'u darperir drwy Ordinhad.
3. Gall fod un neu fwy o Ddirprwy Is-Gangellorion i'r Brifysgol, a byddant yn cyflawni'r swyddogaethau hynny y dirprwyo'r Is-Ganghellor iddynt ac fel y gellir darparu drwy Ordinhad. Y Cyngor fydd yn penodi'r Dirprwy Is-Gangellorion. Bydd y drefn ar gyfer penodi a thelerau ac amodau swydd y Dirprwy Is-Gangellorion fel y'u darperir drwy Ordinhad.

## IX. SWYDDI ERAILL

Yn ychwanegol at y swyddi a sefydlwyd gan y Siarter hon, bydd i'r Brifysgol y swyddi eraill hynny y gall Ystatud a / neu Ordinhad eu darparu.

## X. YR YMWELYDD

Bydd Ymwelydd i'r Brifysgol a benodir gan y Cyfrin Gyngor, ar enwebiad y Cyngor, o blith y rhai hynny sydd yn dal neu sydd wedi dal swyddi barnwrol uchel. Bydd y darpariaethau sydd yn berthnasol i'r Ymwelydd fel y'u darperir drwy Ordinhad.

## XI. Y CYNGOR

Bydd Cyngor i'r Brifysgol. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Siarter hon a'r Ystatudau, y Cyngor fydd corff llywodraethol goruchaf y Brifysgol a bydd yn gyfrifol am benderfynu ar gyfeiriad strategol y Brifysgol ac am y modd y gweithredir materion ariannol a gweinyddol, a materion eraill y Brifysgol, yn unol â'i hamcanion. Bydd y Cyngor yn cael cadw a defnyddio sêl gyffredin y Brifysgol. Bydd cyfansoddiad a galluoedd y Cyngor fel y'u darperir drwy Ystatud. Bydd aelodaeth a swyddogaethau penodol y Cyngor fel y'u darperir drwy Ordinhad.

## **XII. Y SENEDD**

Bydd Senedd i'r Brifysgol. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Siarter hon a'r Ystatudau, y Senedd fydd awdurdod academaidd y Brifysgol a bydd yn gyfrifol i'r Cyngor am swyddogaethau academaidd y Brifysgol mewn addysgu ac ymchwil ac am reoli buddiannau academaidd y myfyrwyr. Bydd cyfansoddiad, galluoedd a swyddogaethau'r Senedd fel y'u darperir drwy Ordinhad.

## **XIII. Y LLYS**

Bydd Llys i'r Brifysgol. Rôl y Llys fydd darparu fforwm cyhoeddus ar gyfer cyfathrebu ac ar gyfer trafod gweithgareddau'r Brifysgol. Bydd aelodaeth a swyddogaethau'r Llys fel y'u darperir drwy Ordinhad.

## **XIV. Y STRWYTHUR ACADEMAIDD A GWEINYDDOL**

Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Siarter hon a'r Ystatudau, bydd i'r Brifysgol y strwythur academaidd a gweinyddol angenrheidiol i gyflawni ei hamcanion.

## **XV. MYFYRWYR**

1. Bydd Sefydliad ar gyfer Myfyrwyr y Brifysgol a fydd, yn ddarostyngedig i amodau a ddarperir drwy Ystatud neu Ordinhad, yn cael ei gydnabod gan y Brifysgol.
2. Gall y Brifysgol gydnabod un neu fwy o gymdeithasau o gyn-fyfyrwyr y Brifysgol, yn ddarostyngedig i amodau a ddarperir drwy Ordinhad.

## **XVI. YSTATUDAU**

1. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Siarter hon, gall Ystatudau bennu neu reoli llywodraeth y Brifysgol a'i haelodau a darparu ar gyfer y materion eraill hynny a benderfynô'r Brifysgol er mwyn hyrwyddo ei hamcanion.
2. Yr Ystatudau a restrir yn yr Atodlen i'r Siarter hon fydd Ystatudau'r Brifysgol a byddant yn parhau mewn grym hyd oni chânt eu hamrywio neu eu diddymu yn unol â'r Erthygl hon.
3. Ar ôl ymgynghori â'r Senedd, gall y Cyngor gynnig Ystatudau ar gyfer y Brifysgol drwy Benderfyniad Arbennig, i amrywio neu diddymu'r Ystatudau sydd mewn grym ar y pryd, a byddant yn dod i rym pan geir cymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor. Bydd tystysgrif a roddir gan Glerc y Cyfrin Gyngor yn dystiolaeth derfynol o gymeradwyaeth o'r fath.

## **XVII. ORDINHADAU**

1. Gall yr Ystatudau orchymyn bod darpariaeth bellach ar gyfer pennu neu reoli unrhyw faterion y maent yn ymdrin â hwy yn cael ei gwneud drwy Ordinhad, ar yr amod ei bod yn gyson â darpariaethau'r Siarter hon a'r Ystatudau.
2. Drwy benderfyniad y Cyngor y gwneir Ordinhadau, eu hamrywio a'u diddymu, ar yr amod nad yw Ordinhadau sydd yn ymwneud â materion sydd o fewn cyfrifoldebau'r Senedd (yn unol â'r hyn a benderfynir dan y Siarter hon, yr Ystatudau a'r Ordinhadau) yn cael eu gwneud, eu hamrywio na'u diddymu heb ymgynghori â'r Senedd. Yr Is-Ganghellor a fydd yn penderfynu a yw mater o fewn cyfrifoldebau'r Senedd ai peidio.

## **XVIII. RHEOLIADAU**

1. Gall yr Ystatudau a'r Ordinhadau orchymyn bod darpariaeth bellach ar gyfer pennu neu reoli unrhyw fater y maent yn ymdrin ag ef yn cael ei gwneud drwy Reoliad, ar yr amod ei bod yn gyson â darpariaethau'r Siarter hon, yr Ystatudau a'r Ordinhadau.
2. Drwy Benderfyniad gall y Cyngor wneud, amrywio neu ddiddymu Rheoliadau ar unrhyw fater sydd o fewn cylch ei ddyletswyddau.
3. Gall y Cyngor ddirprwyo i'r Senedd y gallu i wneud, i amrywio neu i ddiddymu Rheoliadau sydd yn ymwneud â materion sydd o fewn ei chyfrifoldebau dan y Siarter hon, yr Ystatudau a'r Ordinhadau. Yr Is-Ganghellor a fydd yn penderfynu a yw mater o fewn cyfrifoldebau'r Senedd ai peidio.

## **XIX. RHEOLAU SEFYDLOG**

Yn ddarostyngedig i'r Siarter hon, yr Ystatudau, yr Ordinhadau a'r Rheoliadau, gall Corff Ystatudol wneud, amrywio neu ddiddymu'r Rheolau Sefydlog sydd yn llywodraethu eu dulliau gweithredu.

## **XX. CYFLE CYFARTAL**

Bydd addasrwydd ar gyfer penodiad i unrhyw Swydd, cyflogaeth neu aelodaeth o'r Cyngor, y Senedd, y Llys neu unrhyw gorff arall yn y Brifysgol, ac addasrwydd ar gyfer ymgymryd â chwrs astudio neu ar gyfer derbyn myfyrwyr i unrhyw gwrs astudio, neu ar gyfer dyfarniad unrhyw un o anrhydeddau academiaidd y Brifysgol, yn seiliedig ar egwyddor cyfle cyfartal ac yn unol â holl ddarpariaethau'r gyfraith ac arfer da.

## **XXI. DEFNYDDIO INCWM**

Ni chaniateir i'r Brifysgol ddefnyddio ei hincwm ond wrth hyrwyddo ei hamcanion ac ni chaniateir iddi wneud taliadau ar ffurf bonws, dididend, rhodd na rhaniad ariannol i'w haelodau, na rhyngddynt, ac eithrio ar ffurf cydnabyddiaeth, gwobr neu rodd arbennig.

## **XXII. NEWIDIADAU I'R SIARTER**

1. Ar ôl ymgynghori â'r Senedd, gall y Cyngor gynnig amrywio neu ddiddymu unrhyw un o ddarpariaethau'r Siarter hon drwy Benderfyniad Arbennig, na ddaw i rym hyd oni fydd wedi ei gymeradwyo gennym Ni, Ein Hetifeddion a'n Holynwyr yn y Cyngor. Bydd tystysgrif a roddir gan Glerc y Cyfrin Gyngor yn dystiolaeth derfynol o gymeradwyaeth o'r fath.
2. Rhaid i'r Ystatudau ddarparu ar gyfer y broses o gynnig Penderfyniad Arbennig dan yr Erthygl hon ac ar gyfer rhoi i Glerc y Cyngor ac aelodau'r Cyngor rybudd digonol am y bwriad i wneud hynny, gan nodi manylion yr amrywiad neu'r diddymiad a gynigir.

## **XXIII. PENDERFYNIAD ARBENNIG**

At ddiben y Siarter hon y mae Penderfyniad Arbennig yn golygu penderfyniad gan y Cyngor wedi'i gymeradwyo gan nifer heb fod yn llai na dwy ran o dair o aelodau'r Cyngor sydd yn gymwys i bleidleisio.

A'n hewyllys a'n pleser Brenhinol Ni yw fod Ein Siarter Atodol hon i'w dehongli bob amser yn haelionus ac ym mhob achos yn y modd mwyaf ffafriol i'r sefydliad ac i hyrwyddiad amcanion Ein Siarter Atodol hon.

YN DYSTIOLAETH o hynny yr Ydym wedi peri gwneud y rhain, Ein Llythyr yn Agored. TYSTIED Ein Hunain yn Westminster ar y nawfed dydd o fis Gorffennaf ym mhedwaredd flwyddyn ar ddeg ar hugain Ein Teyrnasiad.



## YR ATODLEN

### YSTATUDAU'R BRIFYSGOL

#### 1. DIFFINIADAU

- (1) Yn y Siarter, yr Ystatudau, yr Ordinhadau a'r Rheoliadau, ac eithrio lle bydd y cyddestun yn gofyn am ystyr wahanol, dyma ystyr y termau canlynol:

“Aelodau Annibynnol” yw unigolion a benodir i'r Cyngor neu unrhyw un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau'r Brifysgol nad ydynt yn aelodau o'r staff nac yn fyfyrwyr yn y Brifysgol.

“Aelod cyfetholedig” yw unrhyw un a benodir i'r Cyngor neu unrhyw un o'i is-bwyllgorau i wasanaethu ar sail ymgynghorol, ar sail ei sgiliau neu arbenigedd penodol, ac nad yw'n aelod o'r staff nac yn fyfyrwr.

“Archwilwyr” yw archwilwyr allanol y Brifysgol a benodir yn unol â'r Ystatudau.

“Athrawon Emeritws” yw athrawon y Brifysgol a fu gynt yn aelodau o'r Staff Academaidd ac y dyfarnwyd teitl athro emeritws iddynt yn unol â'r Ordinhadau.

“Blwyddyn” yw cyfnod o ddeuddeng mis sydd yn gorffen ar y dyddiad hwnnw a bennir o bryd i'w gilydd drwy Ordinhad, a gellir pennu gwahanol ddyddiadau i wahanol ddibenion.

“Cadeirydd y Cyngor” yw'r Cadeirydd a benodir gan y Cyngor yn unol ag Erthygl VII ac Ystatud 5(4)(a).

“Canghellor” yw Canghellor y Brifysgol a benodir gan y Cyngor yn unol â'r Siarter a'r Ordinhadau.

“Clerc y Cyngor” yw'r unigolyn a benodir i wasanaethu fel ysgrifennydd i'r Cyngor.

“Corff Ystatudol” yw'r Cyngor a'r Senedd.

“Cyngor” yw Cyngor y Brifysgol a sefydlir yn unol â'r Siarter, yr Ystatudau a'r Ordinhadau.

“Dirprwy Gadeirydd y Cyngor” yw'r Dirprwy Gadeirydd a benodir gan y Cyngor yn unol ag Erthygl VII ac Ystatud 5(4)(a).

“Dirprwy Gangellorion” yw Dirprwy Gangellorion y Brifysgol a benodir gan y Cyngor yn unol â'r Siarter a'r Ordinhadau.

“Dirprwy Is-Gangellorion” yw Dirprwy Is-Gangellorion y Brifysgol a benodir gan y Cyngor yn unol â'r Siarter a'r Ordinhadau.

“Is-Ganghellor” yw Is-Ganghellor y Brifysgol a benodir gan y Cyngor yn unol â'r Siarter a'r Ordinhadau.

“Llys” yw Llys y Brifysgol a sefydlir yn unol â'r Siarter a'r Ordinhadau.

“Myfyrwyr” yw'r rhai hynny sydd wedi'u cofrestru ar gwrs astudio a gynigir gan y Brifysgol.

“Ordinhadau” yw'r Ordinhadau a wneir yn unol â'r Siarter a'r Ystatudau.

“Penaethiaid Unedau Academaidd” yw’r aelodau hynny o’r Staff Academaidd a benodir gan y Cyngor i fod yn gyfrifol am waith Uned Academaidd o’r Brifysgol.

“Prifysgol” yw’r sefydliad a adwaenir naill ai fel “PRIFYSGOL ABERYSTWYTH” neu fel “ABERYSTWYTH UNIVERSITY”.

“Rheol Sefydlog” yw penderfyniad a wneir gan unrhyw gorff a gyfansoddir gan y Siarter neu’r Ystatudau i’r diben o reoli ei ddull ei hun o weithredu.

“Rheoliadau” yw Rheoliadau a wneir yn unol â’r Siarter a’r Ystatudau.

“Sefydliad y Myfyrwyr” yw sefydliad y Myfyrwyr a sefydlir yn unol â’r Siarter, yr Ystatudau a’r Ordinhadau.

“Senedd” yw Senedd y Brifysgol a sefydlir yn unol â’r Siarter a’r Ordinhadau.

“Siarter” yw’r Siarter Atodol y mae’r Ystatudau hyn yn atodlen iddi, gan gynnwys unrhyw amrywiadau a wneir ar unrhyw adeg.

“Staff” yw unrhyw berson a gyflogir gan y Brifysgol gan gynnwys Staff Academaidd, onid yw’r cyd-destun yn awgrymu fel arall.

“Staff Academaidd”, at ddibenion y Siarter, yr Ystatudau a’r Ordinhadau, yw’r aelodau o’r staff sydd ar gontract academaidd a’r aelodau eraill hynny o’r Staff y penderfynô’r Senedd y dylent gael statws academaidd.

“Swyddogion” yw’r Canghellor, y Dirprwy Gangellorion, Cadeirydd y Cyngor, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor, yr Is-Ganghellor, yr Uwch Ddirprwy Is-Gangellorion, y Dirprwy Is-Gangellorion, a deiliaid unrhyw swyddi eraill a ddarperir gan yr Ystatudau.

“Unedau Academaidd” yw’r unedau academaidd yn unol â’r ystyr a bennir yn Ystatud 7.

“Uwch Ddirprwy Is-Gangellorion” yw Uwch Ddirprwy Is-Gangellorion y Brifysgol a benodir gan y Cyngor yn unol â’r Siarter a’r Ordinhadau.

“Ystatudau” yw’r Ystatudau hyn gan gynnwys unrhyw amrywiadau a wneir ar unrhyw adeg yn unol â’r drefn briodol.

- (2) Bydd geiriau yn yr unigol yn cynnwys y lluosog (ac fel arall), onid ymddengys bwriad i’r gwrthwyneb.

## **2. Y SWYDDOGION A’R STAFF**

Yn ddarostyngedig i’r Siarter, yr Ystatudau a’r Ordinhadau, bydd y Cyngor yn penodi’r Swyddogion a’r Staff hynny am y tâl hwnnw ac ar y telerau a’r amodau hynny a benderfynô’r Cyngor.

## **3. CLERC I’R CYNGOR**

Yn ddarostyngedig i’r Ystatudau a’r Ordinhadau, bydd Clerc i’r Cyngor â’r swyddogaethau hynny ac ar y telerau a’r amodau hynny a benderfynô’r Cyngor.

## **4. YR ARCHWILWYR**

Bydd y Cyngor yn penodi archwilwyr allanol, yn sefydlu pwyllgor i gwmpasu archwilio a risg, ac yn cytuno ar:

- y drefn ar gyfer penodi'r archwilwyr allanol;
- tymor swyddi, swyddogaethau a thâl yr archwilwyr allanol;
- cyfansoddiad a swyddogaethau'r pwyllgor archwilio a risg.

## 5. Y CYNGOR

- (1) Bydd Cyngor i'r Brifysgol a hwnnw fydd y Corff Llywodraethol. Bydd y Cyngor yn cynnwys aelodau annibynnol, aelodau *ex-officio*, aelodau cynrychioliadol a etholir gan y Senedd, y staff a Sefydliad y Myfyrwyr, a'r cyfryw aelodau hynny a gyfetholo'r Cyngor. Ni fydd gan aelodau cyfetholedig hawl i bleidleisio yng nghyfarfodydd y Cyngor. Ni fydd cyfanswm y Cyngor yn fwy na 25 o aelodau sydd â hawl i bleidleisio ac aelodau cyfetholedig, a bydd nifer yr aelodau sydd â hawl i bleidleisio yn unol â'r hyn a ddarperir drwy Ordinhad. Bydd union aelodaeth y Cyngor – y bydd iddo fwyafrif o aelodau annibynnol – yn unol â'r hyn a ddarperir drwy Ordinhad.
- (2) Bydd y cyfnodau y bydd aelodau'r Cyngor yn dal eu swyddi fel a ganlyn:
  - (a) Bydd Aelodau Annibynnol o'r Cyngor yn dal eu swyddi am dair blynedd ar ôl eu penodi, oni fydd y Cyngor yn penderfynu ar dymor byrrach. Bydd Ordinhad yn pennu'r meini prawf ar gyfer diffinio a yw Aelodau Annibynnol yn gymwys i gael eu hailbenodi pan ddaw tymor eu swydd i ben.
  - (b) Bydd Aelodau *ex-officio* yn parhau'n aelodau cyhyd ag y byddant yn dal swydd sydd yn gymwys ar gyfer y categori hwn o aelodaeth.
  - (c) Bydd aelodau'r myfyrwyr yn dal eu swyddi am un flwyddyn, a bydd modd i'r corff penodi adnewyddu'r tymor am un flwyddyn ychwanegol cyhyd ag y byddant yn dal yn aelodau neu'n gynrychiolwyr o'r corff hwnnw. Bydd Ordinhad yn diffinio telerau ac amodau ethol aelodau'r myfyrwyr.
  - (ch) Bydd yr Aelodau a etholir gan y Senedd yn parhau'n aelodau cyhyd ag y byddant yn aelodau o'r Senedd. Byddant yn dal eu swyddi hyd ddiwedd y drydedd flwyddyn ar ôl eu hethol neu unrhyw ddyddiad blaenorol a benderfynir fesul achos unigol gan y Senedd er mwyn sicrhau bod yr aelodaeth yn cylchdroi. Bydd Ordinhad yn diffinio'r drefn ar gyfer ethol aelodau'r Senedd ac a ydynt yn gymwys i gael eu haillethol.
  - (d) Bydd Aelodau'r Staff yn parhau'n aelodau cyhyd ag y byddant yn aelodau o'r etholaeth a'u hetholodd. Byddant yn dal eu swyddi hyd ddiwedd y drydedd flwyddyn ar ôl eu hethol. Bydd Ordinhad yn diffinio'r drefn ar gyfer ethol Aelodau'r Staff ac a ydynt yn gymwys i gael eu haillethol.
  - (dd) Bydd Aelodau Cyfetholedig yn dal eu swyddi hyd ddiwedd y drydedd flwyddyn ar ôl eu cyfethol oni fydd y Cyngor yn penderfynu ar gyfnod byrrach.
- (3) Ni fydd aelod o'r Cyngor a ddiswyddir dan Ystatud 12(2)(a)(iv) neu (v) yn gymwys i'w aillethol neu i'w haillethol am gyfnod a ddiffinnir drwy Ordinhad.
- (4) (a) Bydd y Cyngor yn penodi Cadeirydd y Cyngor a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor (na fyddant yn aelodau o'r staff nac yn fyfyrwyr). Bydd Ordinhad yn diffinio'r drefn ar gyfer penodi'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd a thymor eu swyddi, ac ar gyfer diswyddo'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd mewn amgylchiadau eithriadol.

- (b) Os nad yw'r Cyngor wedi penodi Cadeirydd, neu os yw swydd y Cadeirydd yn wag, yna bydd y Dirprwy Gadeirydd yn cadeirio yng nghyfarfodydd y Cyngor. Yn absenoldeb y Dirprwy Gadeirydd, bydd yr aelodau a fydd yn bresennol yn dewis unigolyn (na fydd yn aelod o'r staff nac yn fyfyrwr) i gadeirio yn y cyfarfod hwnnw.
- (5) Bydd aelodau'r Cyngor yn cael y papurau, ac yn mynychu a chymryd rhan yn ei gyfarfodydd. Bydd yn ofynnol iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau ac ymadael os yw'r mater a drafodir o fuddiant uniongyrchol iddynt.
- (6) Os bydd unrhyw aelod o'r Cyngor yn dymuno cyflwyno cynnig i newid y Siarter neu'r Ystatudau:
  - (a) bydd yr aelod yn rhoi i Glerc y Cyngor rybudd ysgrifenedig o'r cynnig arfaethedig ynghyd â manylion y newidiad(au) o leiaf chwe wythnos cyn dyddiad cyfarfod y Cyngor pan fo'r cynnig i'w drafod; a
  - (b) bydd Clerc y Cyngor yn anfon rhybudd cyffelyb at holl aelodau'r Cyngor o leiaf wyth niwrnod ar hugain cyn dyddiad y cyfarfod hwnnw o'r Cyngor pan fo'r cynnig i'w drafod.
- (7) Bydd y Rheolau Sefydlog yn pennu sut y rhoddir gwybod i aelodau'r Cyngor am gynnig arfaethedig i'r Cyngor i newid unrhyw un o delerau'r Siarter neu'r Ystatudau a gynigir gan Swyddog o'r Brifysgol, neu unrhyw bwyllgor a sefydlir gan y Cyngor.
- (8) Bydd hawliau a chyfrifoldebau aelodau'r Cyngor yn cael eu pennu drwy Ordinhad.

## 6. GALLUOEDD A CHYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR

- (1) Yn ddarostyngedig i'r Siarter, bydd y Cyngor yn rhinwedd ei swydd fel Corff Llywodraethol y Brifysgol yn arfer holl alluoedd y Brifysgol a bennir yn yr Ystatudau hyn. Diffinnir ystyr arfer galluoedd drwy Ordinhad.
- (2) Bydd y Cyngor:
  - (a) yn gyfrifol am sicrhau bod y Brifysgol yn datblygu, yn gweithredu'n gynaliadwy, ac yn cynnal ei henw da;
  - (b) yn pennu cyfeiriad Strategol y Brifysgol ac yn monitro perfformiad;
  - (c) yn gyfrifol yn y pen draw am holl fusnes y Brifysgol;
  - (ch) yn sicrhau bod busnes, eiddo a materion ariannol y Brifysgol yn cael eu rheoli'n effeithiol mewn modd amgylcheddol gynaliadwy;
  - (d) yn pennu strwythur, staffio a holl fframwaith y Brifysgol;
  - (dd) yn penodi'r Canghellor, y Dirprwy Gangellorion, Cadeirydd y Cyngor, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor, ac aelodau annibynnol a chyfetholedig y Cyngor;
  - (e) yn penodi'r Is-Ganghellor, unrhyw Uwch Ddirprwy Is-Gangellorion a'r Dirprwy Is-Gangellorion;
  - (f) yn penodi penaethiaid yr unedau academaidd ac unrhyw rai eraill fel y penderfynir o'r Cyngor;
  - (ff) yn penodi archwilwyr allanol y Brifysgol.

## 7. STRWYTHUR ACADEMAIDD

(1) Yn yr Ystatud hon:

Ystyr “Uned Academaidd” yw unrhyw adran, ysgol, athrofa neu uned academaidd arall a gydnabyddir gan y Cyngor fel un sydd â'r cyfrifoldeb pennaf am ddarparu rhaglenni sydd yn arwain at ddyfarnu graddau israddedig ac uwchraddedig a chymwysterau academaidd eraill y Brifysgol, cynnal a hyrwyddo gweithgaredd ymchwil, cyswllt â'r cyhoedd a chyfnewid gwybodaeth, a'r swyddogaethau eraill hynny a benderfynno'r Senedd a'r Cyngor o bryd i'w gilydd.

(2) Trefnir gwaith academaidd y Brifysgol mewn unedau academaidd fel y'u darperir drwy Ordinhad.

(3) Yn ddarostyngedig i'r Siarter a'r Ystatudau, bydd yr Ordinhadau yn darparu'r manylion ynghylch y modd y sefydlir unedau academaidd, ac ynghylch eu strwythur, eu galluedd a'u swyddogaethau.

(4) Bydd Rheoliadau'r Senedd yn ei galluogi i ddirprwyo ei galluedd a'i dyletswyddau ei hunan (ac eithrio ei gallu i wneud Rheoliadau) i unrhyw uned academaidd, neu i unrhyw fwrdd neu bwyllgor mewn unrhyw uned academaidd, ac i ddiwygio telerau dirprwyo o'r fath fel y gwelo'r Senedd yn briodol.

(5) Bydd y Cyngor yn penodi pennaeth pob uned academaidd. Bydd manylion y dulliau dethol, tymor y swyddi, a galluedd a swyddogaethau pennaeth uned academaidd yn cael eu darparu drwy Ordinhad.

## 8. SEFYDLIAD Y MYFYRWYR

(1) Bydd Sefydliad ar gyfer Myfyrwyr a bydd yr holl fyfyrwyr yn gymwys i fod yn aelodau ohono. Bydd gan unrhyw fyfyrwr yr hawl i beidio â bod yn aelod o Sefydliad y Myfyrwyr ond drwy wneud hynny ni fydd gan y myfyrwyr hynny yr hawl i fuddiannau'r aelodaeth a ddisgrifir yn Rheoliadau Sefydliad y Myfyrwyr.

(2) Dyma fydd swyddogaethau Sefydliad y Myfyrwyr:

(a) ategu dibenion addysgol y Brifysgol a chyfoethogi profiad y myfyrwyr;

(b) hyrwyddo cydweithredu rhwng ei aelodau ym meysydd addysg, diwylliant, cymdeithasu a chwaraeon;

(c) darparu ar gyfer lles ei aelodau a'u cynrychioli mewn materion a fydd yn effeithio ar eu buddiannau;

(ch) penodi aelodau o blith y myfyrwyr i gyrrff perthnasol y Brifysgol

(3) Gellir mabwysiadu neu amrywio cyfansoddiad Sefydliad y Myfyrwyr yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad hwnnw a bydd unrhyw newidiadau yn dod i rym pan y'u cymeradwywyd gan y Cyngor, wedi rhoi ystyriaeth i farn y Senedd.

(4) Bydd y Cyngor:

– yn adolygu cyfansoddiad Sefydliad y Myfyrwyr ar yr adegau hynny sydd yn ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth neu ar adegau eraill fel y gwêl fod angen;

- yn cymryd camau sydd yn rhesymol ymarferol i sicrhau bod Sefydliad y Myfyrwyr yn atebol am ei gyllid ac yn gweithredu mewn modd teg a democrataidd.

## 9. STAFF

- (1) Bydd staff y Brifysgol yn cyflawni dyletswyddau eu priod swyddi yn unol ag amcanion y Brifysgol fel y'u diffinnir yn y Siarter, a'r cynllun strategol, a pholisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol.
- (2) Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn bydd gan y staff y rhyddid i herio safbwyntiau uniongred a chyflwyno syniadau a safbwyntiau a hynny heb eu rhoi eu hunain mewn perygl o golli eu swyddi na'u breiniau.
- (3) Bydd y Cyngor yn pennu'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd yn gymwys i brif delerau ac amodau staff y Brifysgol. Cyn gweithredu, bydd y Cyngor yn sicrhau yr ymgynghorir â'r undebau llafur perthnasol ac yr ystyrir eu safbwyntiau.

## 10. DISGYBLAETH

- (1) Mae'r rheolau a'r rheoliadau wedi eu mabwysiadu er lles cymuned y Brifysgol.
- (2) Bydd y staff a'r myfyrwyr yn cydymffurfio â'r holl reolau a'r rheoliadau a fabwysiedir gan y Brifysgol sydd yn berthnasol iddynt, a gallant fod ar dir i'w cosbi o dorri'r rheolau neu'r rheoliadau hyn.
- (3) Bydd yr Ordinhadau yn pennu'r drefn ddisgyblu a ddilynr ar gyfer y Staff a'r myfyrwyr.

## 11. ORDINHADAU

Yn ddarostyngedig i'r Siarter a'r Ystatudau, gellir gwneud Ordinhadau a fydd yn ymwneud â phob mater a orchmynnir neu a awdurdodir gan y Siarter a'r Ystatudau ac unrhyw fater arall o'r fath nas rheolir fel arall gan y Siarter a'r Ystatudau.

## 12. DARPARIAETHAU CYFFREDINOL SYDD YN GYMWYS I'R CYNGOR A'R SENEDD

- (1) Bydd y darpariaethau canlynol, yn ddarostyngedig i'r Siarter a'r Ystatudau ac i unrhyw ddarpariaeth benodol a wneir yn yr Ordinhadau neu'r Rheoliadau, yn gymwys i'r Cyngor a'r Senedd (y cyrff a elwir yn yr Ystatud hon yn 'Gyrff Ystatudol'):
- (2) Aelodaeth
  - (a) Bydd aelod o Gorff Ystatudol yn peidio â bod yn aelod o'r corff hwnnw o dan unrhyw un o'r amgylchiadau isod:
    - (i) ac eithrio aelod *ex-officio* neu Gadeirydd, os yw ef neu hi yn ymddiswyddo o'i aelodaeth neu ei haelodaeth neu ei swydd drwy roi rhybudd ysgrifenedig i glerc y Corff Ystatudol perthnasol;
    - (ii) os aelodaeth *ex-officio* sydd ganddo neu ganddi a'i fod ef neu ei bod hi yn peidio â dal y swydd honno;
    - (iii) os yw'n ofynnol iddo neu iddi ddal rhyw gymhwyster a'i fod ef neu ei bod hi yn peidio â dal y cymhwyster hwnnw;
    - (iv) os yw ef neu hi'n absennol o dri chyfarfod yn olynol o Gorff Ystatudol heb ganiatâd y Corff hwnnw;

- (v) os gwneir penderfyniad i'w ddiswyddo neu ei diswyddo o Gorff Ystatudol. Bydd gan yr aelod yr hawl i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ac i fynychu ac annerch y cyfarfod o'r Corff Ystatudol yr ystyrir y penderfyniad ynddo.
- (b) Bydd unrhyw aelod ac unrhyw gadeirydd yn gymwys i'w ailbenodi neu ei hailbenodi neu i'w ailethol neu ei haillethol, ac eithrio aelod a ddiswyddir yn unol â pharagraff (a)(v).
- (c) Llenwir unrhyw le gwag cynamserol a ddigwydd yn unrhyw un o'r Cyrff Ystatudol ymysg unrhyw rai o'i aelodau enwebedig, penodedig, cynrychioliadol neu etholedig gan y person neu'r corff a enwebodd, a benododd neu a etholodd yr aelod yr aeth ei le neu ei lle yn wag. Bydd aelod o unrhyw un o'r Cyrff Ystatudol a enwebir, a benodir neu a etholir i lanw lle gwag cynamserol yn dal y swydd yn unig am y rhan sydd heb ddarffod o dymor swydd yr aelod yr enwebir, y penodir neu yr etholir ef neu hi yn ei le neu yn ei lle.
- (ch) Bydd gan unrhyw berson a benodir i ddal unrhyw swydd neu safle dros dro, oni bydd y Cyngor yn gorchymyn fel arall, hawl i'r un aelodaeth o'r Cyrff Ystatudol ag a fyddai gan ddeilydd parhaol y sawl sydd yn dal y swydd honno neu'r safle hwnnw.

### (3) Cyfarfodydd

- (a) Ni fydd cyfarfodydd yn mynd rhagddynt os nad oes cworwm yn bresennol. Bydd Ordinhad yn diffinio'r hyn a gyfrifir fel cworwm.
- (b) Penderfynir pob mater gan fwyafrif yr aelodau sydd yn bresennol ac yn pleidleisio ar y cwestiwn. Pan fo'r pleidleisiau'n gyfartal bydd gan y Cadeirydd neu'r Swyddog arall a fydd yn llywyddu bleidlais fwrw pa un a bleidleisiodd ynghynt ar y cynnig ai peidio.
- (c) Gall unrhyw un o'r Cyrff Ystatudol benderfynu amser a lle ei gyfarfodydd a'r drefn a ddilynir ynddynt.
- (ch) Gall unrhyw un o'r Cyrff Ystatudol wneud Rheolau Sefydlog er mwyn rheoli trefn ei weithrediadau.
- (d) Gall person sydd â'r hawl i fynychu cyfarfod o Gorff Ystatudol a phleidleisio ynddo gyfranogi drwy ddull electronig os:
  - (i) yw Rheolau Sefydlog y Corff hwnnw yn darparu ar gyfer cyfranogi drwy ddull electronig; a
  - (ii) bod unrhyw ragamodau sydd wedi'u cynnwys yn y Rheolau Sefydlog, a all gynnwys gofyniad i gael caniatâd ymlaen llaw gan yr Is-Ganghellor, neu Swyddog arall, wedi cael eu bodloni.

### (4) Dirprwyo gan Gorff Ystatudol

- (a) Gall Corff Ystatudol sefydlu pwyllgorau sydd wedi'u cyfansoddi naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol o aelodau o'r Corff hwnnw. Bydd darpariaethau'r Ystatud hon yn gymwys i unrhyw un o bwyllgorau Corff Ystatudol.
- (b) Yn ddarostyngedig i baragraffau (c) ac (ch), gall Corff Ystatudol gytuno i ddirprwyo, am y cyfnod hwnnw ac ar yr amodau hynny a benderfynir, unrhyw rai o'i alluoedd a'i swyddogaethau:

- i un o'i bwyllgorau; neu
  - i'r Corff Ystatudol arall drwy gytundeb; neu
  - i unrhyw un o Swyddogion y Brifysgol.
- (c) Ni all y Cyngor ddirprwyo ei alluoedd ond i bwyllgor ac ynddo fwyafrif o aelodau o'r Cyngor i:
- benodi'r archwilwyr allanol;
  - derbyn ac ystyried datganiadau ariannol archwiliedig blynyddol y Brifysgol.
- (ch) Ni all y Cyngor ddirprwyo'r galluoedd na'r swyddogaethau canlynol:
- (i) diwygio neu ddiddymu'r Siarter, yr Ystatudau neu'r Ordinhadau;
  - (ii) penodi'r Is-Ganghellor.

### 13. **CYFLWYNO HYSBYSIADAU A DOGFENNAU**

Bydd y drefn ar gyfer cyflwyno unrhyw hysbysiad neu ddogfen y mae'r Siarter, yr Ystatudau, yr Ordinhadau neu'r Rheoliadau neu ddibenion unrhyw un o'r rhain yn gofyn amdanynt yn cael ei darparu drwy Ordinhad.

### 14. **DEHONGLI'R YSTATUDAU**

Dehonglir yr Ystatudau fel na byddont yn gwrthdaro â'r Siarter.

### 15. **DARPARIAETHAU YN YSTOD CYFNOD Y NEWID**

- (1) Bydd gweithredoedd a wnaed gan y Brifysgol neu ar ei rhan, ac Ordinhadau, Rheoliadau, Rheolau Sefydlog a phenderfyniadau a gymeradwywyd neu a wnaed dan unrhyw un o Siarteri neu Ystatudau blaenorol y Brifysgol neu ddarpariaeth alluogi arall ("y Siarter a'r Ystatudau Blaenorol") yn parhau yn eu llawn rym ac effaith oni byddant yn anghyson â'r Siarter neu'r Ystatudau, neu hyd oni chânt eu hamrywio neu eu diddymu.
- (2) Gall Ordinhadau ddarparu ar gyfer:
- (a) y dull o sicrhau'r newid o gyfansoddiad y Cyngor a'r Llys a awdurdodwyd gan y Siarter a'r Ystatudau Blaenorol i'r cyfansoddiad a awdurdodir gan y Siarter a'r Ystatudau;
  - (b) datrys unrhyw amheuaeth a allo godi ynglŷn ag unrhyw gwestiwn yn ymwneud â'r newid o'r Siarter a'r Ystatudau Blaenorol i'r Siarter a'r Ystatudau.